COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 27 TACHWEDD 2025 AM 10.00

Presennol

A Bagley – Cadeirydd (Aelod Lleyg)

| | |
|---|---|
| M L Hughes | O Clatworthy |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | RM Granville | S J Griffiths | RL Penhale-Thomas |
| MJ Williams | | | |

Aelodau Lleyg - Presennol yn Rhithwir

| | |
|---|---|
| D Austin | B Olorunnisola |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| G Chapman | S Easterbrook |

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Gareth John | Rheolwr Cyllid - Llywodraethu |
| David Williams | Archwilio Cymru |
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – y Gwasanaethau Democrataidd |

## 266. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 30 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar y newid canlynol:<br><br>Lle mae'r cofnodion yn cyfeirio at gynrychiolydd Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiadau canlynol, dylent gyfeirio at gynrychiolydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol,(RIAS):<br><br>• Cynnydd yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2025-26<br>• Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024/25 - DRAFFT |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

## 267. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch atgyfeiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid fel a ganlyn:<br><br>Argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid oedd cyfeirio'r testun |

| | |
|---|---|
| | pryder i sylw Cymorth i Lywodraethwyr i ofyn iddynt hwy ei godi gyda phob Corff Llywodraethu.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a chytunodd ar y canlynol:<br><br>O ystyried y pryder y gallai fod problem ddiogelu yn gysylltiedig â staff oedd yn medru dechrau yn eu swyddi heb gliriad DBS a heb i asesiadau risg priodol fod yn eu lle, gofynnodd y Pwyllgor am dynnu'r mater hwn i sylw Diogelu.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am gytuno ar ddyddiadau i gyflwyno adroddiadau, ynghylch dau gam gweithredu, i'r Pwyllgor fel a ganlyn:<br><br>1. Trosolwg cynhwysfawr o'r strwythur llywodraethu, llinellau adrodd, a chyllid ar gyfer Harbwr Porthcawl.<br><br>2. Yr amgylchiadau yn ymwneud â phenderfyniad y Cyngor i brynu cynhwysydd llong. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

## 268. Adolygiad Hanner Blwyddyn o Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu oedd yn cyd-fynd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 (AGS), gan nodi sut yr oedd y materion o bwys a nodwyd yn cael eu trin yn 2025-26.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r aelodau'n trafod y canlynol:<br><br>• Trosglwyddo'r Gwasanaeth Gwastraff yn ôl i'r Cyngor. Yn benodol, nodwyd bod dau fwrdd ar waith ar hyn o bryd, un ohonynt yn fwrdd pontio, a gofynnwyd am wybodaeth am gynrychiolaeth Cynghorwyr neu aelodau'r Cabinet a sut y gellid cael gweld cofnodion y cyfarfodydd. Mewn |

| | |
|---|---|
| | ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid mai grŵp prosiect swyddogion oedd un, oedd yn gweithio drwy'r holl faterion, a'r llall oedd y Bwrdd Pontio Gwastraff sy'n cyfarfod yn fisol ac yr oedd ei aelodaeth yn gymysgedd o arweinydd cyffredinol y rhaglen ar gyfer y gwasanaeth gwastraff, rhai uwch swyddogion a rhai aelodau o'r Cabinet. O ran darparu mynediad at gofnodion, nododd ei bod hi'n well pe bai'n mynd â'r mater hwnnw i ffwrdd ar gyfer trafod y ffordd orau o roi adborth i'r Aelodau am y prosiect, gan gynnwys adroddiadau sefyllfa i'r Cabinet neu ar gyfer pwyllgor craffu.<br><br>• Sut mae'r Cyngor yn deall ystyr 'gwerth am arian' ac wedi sicrhau bod prosesau caffael yn darparu hynny. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, pan fydd archwilwyr yn gwerthuso prosesau caffael y Cyngor, eu bod yn edrych ar y broses a'r ffordd y mae swyddogion yn gwerthuso tendrau i ddarparu 'gwerth am arian' o ran nwyddau gwasanaethau.<br><br>• A ellid ychwanegu gwerthusiad o weithrediadau'r Gweithgor Cyllideb Craffu (olynydd BREP) at raglen waith y Pwyllgor. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod trafodaethau eisoes wedi digwydd gyda Chadeirydd y broses gyffredinol i ddadansoddi sut yr oedd wedi gweithio eleni a sut y gellid ei gwella'r flwyddyn nesaf. Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd hefyd fod y Tîm Craffu yn cynnal adolygiad o'r broses ac, er mwyn osgoi dyblygu, na fyddai anhawster iddi ddod ag adroddiad ar hynny i'r Pwyllgor maes o law.<br><br>• A oedd modd cyfeirio'r anawsterau sy'n parhau mewn rhai meysydd i recriwtio staff at bwyllgor arall (h.y. Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Chyflogeion) i'w dadansoddi'n fanwl. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod llawer iawn o waith wedi ei dargedu wedi cael ei wneud, a gwersi wedi cael eu dysgu, mewn perthynas â recriwtio, yn neilltuol mewn gofal cymdeithasol a Chymunedau. Nododd hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol paratoi adroddiad ar gyfer Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Chyflogeion.<br><br>• Y dylai diweddariad i'r Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol ystyried y cynnig a basiwyd yn y Cyngor ynghylch sicrhau buddsoddiad moesegol Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai'n mynd â hynny yn ôl at y Tîm Caffael.<br><br>• Nododd aelod lleyg y byddai'n ddefnyddiol deall pa ymyriadau penodol sydd wedi eu cynllunio i |

| | |
|---|---|
| | gryfhau gwydnwch ariannol ysgolion a sut y caiff cynnydd ei fonitro. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, o ran cefnogaeth, fod yna dîm canolog o fewn Cyllid, a thimau o fewn Addysg, sy'n gwneud llawer o waith gydag ysgolion unigol, yn enwedig o ran rhannu syniadau ac arfer da. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r holl benaethiaid. O ran monitro, mae'r adroddiad yn nodi llawer o'r camau gweithredu a gymerwyd gan swyddogion, ac mae Cyllid yn adrodd am y sefyllfa gyffredinol i'r Cabinet bob chwarter drwy'r adroddiad alldro refeniw ar gyfer y Cyngor cyfan.<br><br>• At hynny, gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd a oedd y Pwyllgor yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol bod digon o sylw yn cael ei dalu ar draws yr ysgolion i fynychu digwyddiadau hyfforddi. Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn gwthio'r mater o hyfforddiant a phresenoldeb mewn digwyddiadau pan fydd yn cynnal ei gyfarfodydd â phenaethiaid.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025-26 a'r cynnydd ar y camau gweithredu hyd at 30 Medi 2025. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

**269. Adroddiad Hanner Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2025-26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar weithgareddau rheoli'r trysorlys a dangosyddion rheoli'r trysorlys ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2025.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod y materion canlynol<br><br>• Y sefyllfa o ran dyled hirdymor ac incwm buddsoddi ac a yw'n debygol y bydd cynnydd yn y Dreth Gyngor eleni. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor neu fel arall ar gyfer y flwyddyn nesaf yn rhan o waith modelu parhaus, ond y |

| | |
|---|---|
| | rhagwelid y byddai amcangyfrifon drafft ar gael ym mis Ionawr, yn ôl pob tebyg, ac ar yr adeg honno y ceid cynnig ynghylch cyfradd y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>• Y duedd yn y Gofynion Cyllido Cyfalaf (CFR) yn seiliedig ar ymrwymiadau cyfalaf cyfredol o fewn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd, ac a oedd y rhagamcanion yn realistig wrth symud ymlaen, o ystyried y llithriad yn y rhaglen gyfalaf (am resymau a amlinellwyd mewn adroddiad i'r Cyngor ar 19 Tachwedd) dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod gofynion cyfalaf yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd, ac na fyddai'r Cyngor yn benthyca oni bai bod ei angen ar gyfer y rhaglen gyfalaf.<br><br>• Cost ariannu cynllun y Trysorlys. Nododd Aelod y byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw cyfanswm cost y benthyciadau i'r Cyngor yn erbyn y buddsoddiadau yn newid dros amser, ac a yw'r Cyngor yn gwneud yn dda ai peidio. Mewn ymateb, awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod 'Tabl 10: Llog', oedd yn rhoi cymhariaeth rhwng y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac eithrio rhwymedigaethau hirdymor eraill (PFI a llog prydles), ac incwm llog sy'n ddyledus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 30 Medi 2025, yn ateb y cwestiwn. Roedd yn egluro bod y Cyngor yn derbyn mwy o incwm nag y mae'n rhaid iddo ei wario i ad-dalu dyled. Gofynnodd yr Aelod a ellid darparu rhif treigl fel ei bod hi'n bosibl monitro newidiadau dros amser. Cynigiodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y gellid cynnwys tabl oedd yn dangos y sefyllfa dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.<br><br>• A oedd y Cyngor yn benthyca arian, ac felly'n talu llog, nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid nad yw'r Cyngor yn benthyca cyn bod angen.<br><br>• Y berthynas rhwng llithriad yn y rhaglen gyfalaf a phwysau chwyddiant sy'n arwain at gynnydd mewn costau. Mewn ymateb, cynigiodd y Dirprwy Gadeirydd y gallai'r Rhaglen Gyfalaf fod yn bwnc addas ar gyfer archwiliad gan RIAS.<br><br>• Y ffactorau a arweiniodd at y gwelliannau mewn dyled net a buddsoddiad rhwng mis Mawrth a mis Medi 2025 ac a yw hon yn duedd fydd yn parhau. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cyllid – Llywodraethu mai dros dro roedd hyn, a sefyllfa ar bwynt penodol mewn amser ydoedd, ac nad oedd o reidrwydd yn duedd, o ystyried bod arian ar gyfer buddsoddi yn lleihau dros amser.<br><br>• Y syniad y tu ôl i delerau benthyca, ac a oes perthynas rhwng dibrisiant ased a'r telerau arfaethedig ar gyfer benthyca. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid nad |

| | |
|---|---|
| | yw'r Cyngor yn benthyca mewn perthynas â phrosiectau penodol. Yn gyffredinol, benthyca i dalu am ei raglen y mae'r Cyngor. Am hynny, nid oes cysylltiad uniongyrchol o reidrwydd rhwng benthyciad ac ased penodol.<br><br>• Y ffordd y gwneir penderfyniadau ynglŷn â’r benthyciadau Dewis rhoi benthyciad a Dewis derbyn benthyciad (LOBO). Nododd y Rheolwr Cyllid – Llywodraethu fod pob benthyciad LOBO yn amodol ar fod gan y sawl oedd yn rhoi’r benthyciad yr hawl i newid y gyfradd llog oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol ar unrhyw un o ddau bwynt sbarduno ym mis Ionawr a mis Gorffennaf, a'r Cyngor yn cael yr hawl i wrthod y newid, gan sbarduno ad-daliad cynnar a'r angen i ail gyllido.<br><br>• A fyddai modd, er bod buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o'r trysorlys yn cynrychioli llai nag 1% o gyfanswm asedau hirdymor y Cyngor, darparu tabl oedd yn dangos y duedd ar enillion dros y tymor hir yn enwedig o ystyried bod gwerth y buddsoddiadau hyn wedi cynyddu 9.3% dros y 12 mis diwethaf. Nododd y Rheolwr Cyllid – Llywodraethu y byddai'n bosibl darparu tabl oedd yn dangos y duedd hanesyddol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

### 270. Adroddiad Monitro – Y Broses Gwyno

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd ystyried proses gwyno gorfforaethol yr Awdurdod a phenderfynu a oedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu’r Aelodau’n trafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Nifer y cwynion a wnaed ynglŷn â gwastraff a sbwriel, pryder bod cynifer ohonynt yn cael eu cadarnhau, a beth ellid ei wneud i'w lleihau yn y dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data fod ei rôl hi yn gyfyngedig i'r broses ei hun ac nad oedd hi mewn sefyllfa i roi esboniad ar ran Cyfarwyddiaeth y Cymunedau. Cynigiodd y Dirprwy Gadeirydd y dylid gofyn i Gyfarwyddiaeth y Cymunedau ddarparu mwy o wybodaeth am gwynion ynghylch gwastraff a sbwriel. |

| | |
|---|---|
| | • Gwerth posibl proses adborth i'r rheiny sydd wedi defnyddio'r broses gwynion gorfforaethol. Cadarnhaodd y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data nad oedd un yn bod ar hyn o bryd ond y gellid edrych ar hynny fel rhan o'r broses i ddatblygu'r system newydd ar gyfer cwynion corfforaethol. Nododd y Dirprwy Gadeirydd y dylid edrych ar hynny fel rhan o'r broses o welliant parhaus o ran y broses gwynion.<br><br>• Yr angen am system newydd i wella'r broses o egluro i ble y dylid cyfeirio cwynion.<br><br>• Yr amserlen ar gyfer datblygu a chyflwyno'r broses gwyno newydd, yn seiliedig ar blatfform Granicus ar gyfer darparu gwasanaethau. Cadarnhaodd y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data fod y cam cynllunio wedi cael ei gwblhau ond nad oedd hi mewn sefyllfa i roi'r union amserlen ar gyfer cam yr adeiladu.<br><br>• Gallu'r Cyngor i gwrdd â'r dyddiadau cau a bennwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Nododd y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data, er ei bod hi'n gweithredu fel y person cyswllt ar gyfer OGCC, ei bod hi'n dibynnu ar feysydd gwasanaeth yn y Cyfarwyddiaethau i ymateb i atgyfeiriadau erbyn y dyddiadau cau a osodwyd. Nododd y Dirprwy Gadeirydd fod y dyddiadau cau yn cael eu cytuno rhwng yr awdurdod a'r OGCC i ddechrau, ac er ei fod yn gwerthfawrogi rôl y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data, y dylai rhywun o fewn yr awdurdod fod yn monitro ac yn uwchgyfeirio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyddiadau cau, fel oedd yn briodol.<br><br>• Yr angen i ddysgu drwy gymharu ag eraill, oedd yn llwyddo i gyrraedd cyfradd gydymffurfio lawer uwch o ran terfynau amser Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac a ddylid cael gweithgor yn y Cyngor i ystyried y problemau sy'n peri mai 28% yn unig o'r argymhellion y cydymffurfiwyd â hwy o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.<br><br>• Bod deg cwyn Cod Ymddygiad yn erbyn Cynghorwyr yr Awdurdod wedi cael eu derbyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y flwyddyn dan sylw ond nad aeth yr un ohonynt ymlaen i ymchwiliad.<br><br>• Dylai'r system gwyno newydd hwyluso dysgu mewn meysydd gwasanaeth ac ar draws y sefydliad drwy ddarparu dull i ddadansoddi cwynion a chanlyniadau'n ddyfnach. |

| | |
|---|---|
| | • Dylai'r system newydd hefyd allu cofnodi canmoliaeth.<br><br>• Yr angen posibl am ddigwyddiad hyfforddi, o ystyried nifer y cwynion a gofnodwyd yn Atodiad G: Cod Cwynion y Cyngor Cymuned mewn perthynas â Chyngor Tref Porthcawl.<br><br>• Y ffaith, er bod y Tîm Gwybodaeth yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn cydnabod pob cwyn (anffurfiol a ffurfiol) o fewn pum niwrnod gwaith, y bu rhywfaint o oedi oherwydd prinder staff dros dro.<br><br>• Nododd y Dirprwy Gadeirydd, er bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi derbyn 4% yn llai o gwynion Cod Ymddygiad newydd yn ystod 2024-25 nag yn y flwyddyn flaenorol, fod dros hanner y rhai a dderbyniwyd (56% eleni) yn tueddu i ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. A derbyn bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi cymryd camau gorfodi ffurfiol yn ffurf cytundeb cyfreithiol Adran 23 gyda Llywodraeth Cymru i wella ei chydymffurfiaeth â chyfraith cydraddoldeb, gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd pa sicrwydd sydd gan y pwyllgor bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd angen meddwl amdano ac awgrymodd ei fod yn gam gweithredu i'w gadw mewn cof ac i'w ddwyn yn ôl i'r pwyllgor hwn yn y dyfodol.<br><br>• Bod ar y Pwyllgor angen sicrwydd bod yna broses ar gyfer camau cywiro a bod dolen adborth o ran mynd i'r afael â gwersi ar lefel gorfforaethol mewn perthynas â chwynion.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r atodiadau, gan benderfynu bod y polisi yn gyffredinol yn addas i'w bwrpas ac felly ni wnaeth argymhellion o ran gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

## 271. Blaenraglen Waith 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd gofyn am gymeradwyaeth i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 oedd wedi cael ei diweddaru |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 oedd wedi ei diweddaru a chafodd ei chymeradwyo. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

## 272. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 27 Tachwedd 2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:18.